

# Plant yn Gyntaf

Gofalu am Blant ar eu Pen eu Hunain  
sy'n Ceisio Lloches yng Nghymru

Canllawiau Arfer Gorau i  
Weithwyr Cymdeithasol  
yng Nghymru sy'n  
cynorthwyo Plant ar  
eu Pen eu Hunain sy'n  
Ceisio Lloches



**Canolfan  
Gyfreithiol  
y Plant**  
Children's  
Legal  
Centre

# Cyflwyniad – cynorthwyo dinasyddion y dyfodol

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd argyfwng dyngarol byd-eang gwirioneddol yn datblygu wrth i filiynau o bobl gael eu gorfodi i adael eu cartrefi a theithio dramor i ddianc rhag rhyfel ac erledigaeth. Yn aml iawn, y bobl ifanc sy'n cael eu dal yng nghanol yr argyfwng sy'n dioddef fwyaf, llawer ohonynt yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd ac yn gorfod gwneud siwrneiau hir a pheryglus i rywle y maen nhw'n gobeithio fydd yn rhoi noddfa iddynt. Er bod y DU yn cael ei hystyried yn gyrchfan o ddewis i lawer, mae'r bobl ifanc hyn yn wynebu system loches hynod gymhleth wedi iddynt gyrraedd yma, ac maent yn aml yn cael eu trin fel 'ystadegau', yn hytrach nag unigolion a chanddynt orffennol trawmatig yn aml – ond dyfodol gwell, gobeithio.

Yma yng Nghymru, rydym yn cydnabod hawliau pob person ifanc, o ble bynnag y maent yn dod. Yn anad dim, plant yw'r bobl ifanc hyn. Mae eu hawliau dynol wedi'u diogelu gan fesurau arbennig o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y mae Cymru wedi'i fabwysiadu. Gan mai plant ydyn nhw, mae ganddynt yr un hawliau â phob plentyn arall yng Nghymru, er gwaethaf cymhlethdod y rheolau mewnfudo.

A chithau'n weithwyr cymdeithasol sy'n rhan ganolog o'u gofal, chi sydd yn y lle gorau i gefnogi'r bobl ifanc hyn, i sicrhau eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt a'r cymorth ymarferol, diwylliannol, meddygol a chyfreithiol angenrheidiol. Gallwch helpu i roi llais a rheolaeth i'r bobl ifanc hyn, gan gynnig parch iddynt a gweithredu'n unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol i Weithwyr Cymdeithasol, gan ddangos uniondeb a gonestrwydd tuag at y bobl ifanc hyn sy'n ddinasyddion y dyfodol.

Roedd Cyfrifiad Llywodraeth Cymru o Blant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn 2018 yn awgrymu bod cyfanswm o 105 o blant sy'n ceisio lloches yn derbyn gofal a chymorth yng Nghymru ar 31 Mawrth 2017. Er nad yw'r niferoedd yn uchel ar hyn o bryd, mae anghenion y bobl ifanc hyn yn aml yn gymhleth ac yn heriol. Mae angen hefyd gweld eu hanghenion yng nghyd-destun darlun mewnfudo sy'n newid o hyd, ac agweddau negyddol rhai carfanau o'r cyhoedd a'r cyfryngau Prydeinig tuag at y bobl ifanc hyn – y rhan fwyaf ohonynt yn fechgyn yn eu harddegau, a llawer o'r rheiny bron â throï'n 18.

## Y prif faterion y mae angen i weithwyr cymdeithasol ymdrin â nhw yw

- ▶ Diogelu'r person ifanc
- ▶ Cynorthwyo'r person ifanc drwy'r asesiad oedran, a'r prosesau lloches
- ▶ Dod o hyd i leoliad addas
- ▶ Sicrhau cymorth priodol o ran iechyd a llesiant
- ▶ Sicrhau addysg a chymorth parhaus i'w haddysg
- ▶ Trefnu cymorth diwylliannol ac ieithyddol addas
- ▶ Cynllunio at y dyfodol

Mewn sawl ffordd mae gan y bobl ifanc hyn yn union yr un anghenion ag unrhyw berson ifanc arall y byddwch yn ei gynorthwyo wrth eich gwaith fel gweithiwr cymdeithasol. Gan hynny, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y materion sy'n codi o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cyrraedd y DU, yr asesiad oedran a'r prosesau lloches, a chynllunio llwybr i rywun na fydd efallai'n gallu aros yn y DU.



## Cyrraedd/Cyfeirio

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cyrraedd y DU a Chymru yn 'ddirybudd'. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu gollwng gan lori neu drwy ddulliau dirgel eraill.

Gall rhai pobl ifanc ddod i'r DU o dan fecanwaith a.67 Deddf Mewnfudo 2016 (a elwir yn welliant Dubs). Ymrwymiad yw hwn gan Lywodraeth y DU i drosglwyddo 480 o bobl ifanc i'r DU o rannau eraill o Ewrop, yn enwedig Ffrainc, yr Eidal a Gwlad Groeg. Mae nifer fach o bobl ifanc eisoes wedi adsefydlu yng Nghymru ac efallai y bydd mwy yn dod.

Mae rhai pobl ifanc yn dod i'r DU i ymuno ag aelodau o'r teulu o dan fecanwaith Confensiwn Dulyn III. Os yw'r person ifanc wedi hawlio lloches yn rhywle arall yn yr UE ond bod ganddo berthnasau yn y DU, gellir trosglwyddo'r person ifanc i ymuno â'r teulu. Mewn rhai achosion, fel arfer pan fydd y person ifanc yn dod i'r DU i ymuno â brawd neu chwaer, dylai'r person ifanc barhau i gael ei gyfrif yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol yn awr ar gael yn gyfreithiol yng Nghymru a bydd ar waith cyn hir. Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn haws trosglwyddo plant sy'n ceisio lloches o awdurdodau lleol yn Lloegr lle y mae nifer fawr yn derbyn gofal, megis Caint a Croydon. Bydd Tîm Trosglwyddo Cenedlaethol UASC yn gweithio gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a'ch awdurdod lleol i ddod o hyd i unrhyw leoliadau posib i'r plant hyn.

Adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn, nid yw'n glir pa drefniadau fydd yn parhau ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeidd, ond rhagwelir y bydd rhyw fath o drefniant ar y cyd ar batrwm Dulyn III yn parhau.

## Eich swyddogaeth pan fydd y person ifanc yn cyrraedd neu'n cael ei gyfeirio

Mae'n bosib y byddwch yn dod i gysylltiad â pherson ifanc yn fuan wedi iddo gyrraedd y DU.

- ▶ Os yw swyddogion mewnfudo neu'r heddlu'n dal person ifanc sy'n edrych fel petai o dan 18, fe ddylent gysylltu â'r gwasanaethau plant yn syth. Mae'n rhaid i'r asiantaethau hyn hefyd gynnwys y gwasanaethau plant ar unwaith hefyd os yw'r person ifanc yn dweud ei fod yn 18 ond nad oes tystiolaeth sy'n awgrymu'n gryf ei fod gryn dipyn yn hŷn na 18.
- ▶ Dro arall, efallai na fydd y person ifanc wedi dod i sylw'r awdurdodau mewnfudo wrth iddo gyrraedd y DU, neu efallai y caiff ei drin fel oedolyn i ddechrau, ac efallai mai dim ond yn ddiweddarach y bydd yn do i'ch sylw chi, ar ôl i'r person ifanc fod yn y DU am beth amser.
- ▶ Weithiau, bydd pobl ifanc yn honni eu bod dros 18, efallai am fod pwy bynnag ddaeth â nhw i'r DU wedi dweud bod yn rhaid iddynt ddweud hynny, neu am eu bod yn ofni'r hyn a allai ddigwydd pe byddent yn cyfaddef eu bod o dan 18.
- ▶ Os yw swyddogion mewnfudo o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu'n gryf fod y person ifanc dros 18, caiff y person ifanc ei drin fel oedolyn, a'i roi mewn llety i oedolion. Os yw'r person ifanc yn honni ei fod dros 18 caiff ei roi mewn llety i oedolion hefyd, o dan gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref.

Efallai y bydd y person ifanc wedi dod i gysylltiad ag eraill – gweithwyr iechyd proffesiynol, cynrychiolwyr cyfreithiol, darparwyr llety, gweithwyr mewn canolfannau galw heibio, eglwysi ac asiantaethau eraill – sy'n codi pryderon y gallai'r person ifanc fod o dan 18. Efallai y bydd y person ifanc wedi bod yn byw mewn llety i oedolion am beth amser cyn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau plant a dod i gysylltiad â chi yn rhinwedd eich swydd fel gweithiwr cymdeithasol.

## Asesiad Llesiant

Yn yr asesiad llesiant cychwynnol, eich gwaith chi fel gweithiwr cymdeithasol yw casglu gwybodaeth er mwyn cael gwybod beth yw anghenion mwyaf dybryd y person ifanc. Efallai y bydd yr asesiad hwn yn dod i'r casgliad fod angen cynnal asesiad oedran fel mater o flaenoriaeth. Efallai y bydd gwybodaeth a gesglir yn ystod yr asesiad llesiant cychwynnol yn berthnasol i'r asesiad oedran.

Mae'n hollbwysig **cyfathrebu** â'r bobl ifanc hyn er mwyn cael gwybod beth maen nhw eisiau ei weld yn digwydd, a'u barn nhw am ble y dylent aros, er mwyn gallu ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau amdanynt, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd pennaf y person ifanc.

Bydd angen cael gwybod beth yw mamiaith y person ifanc a sicrhau bod cyfieithydd addas ar gael, nid dim ond o ran iaith a thafodiaith, ond hefyd o ran rhywedd y cyfieithydd. Mae'n hollbwysig trefnu cyfieithu wyneb yn wyneb gyda chyfieithydd o asiantaeth sydd ag enw da:

- ▶ Mae'n golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd y cyfieithu'n gywir ac yn ddibynadwy
- ▶ Mae'n lleihau'r perygl y gallai'r person ifanc ddod i gysylltiad â rhywun nad yw'n gweithredu er budd pennaf y person ifanc
- ▶ Gallai fod yn briodol recordio sgysiaau lle mae cyfieithydd yn bresennol, hyd yn oed cyfieithydd o asiantaeth sydd ag enw da, a chadw cofnod rhag ofn y codir cwestiynau'n nes ymlaen

Mewn ardaloedd mwy anghysbell yng Nghymru, gall fod yn her cael gafael ar y gwasanaethau hyn ar fyr rybudd. Mae'r Llinell Iaith a Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) ar gael i helpu.

Os yw'r person ifanc yn siarad iaith neu dafodiaith sy'n anarferol iawn ac na all y Llinell Iaith na GCC ddarparu cyfieithydd priodol, mae'n werth cysylltu ag adran ieithoedd eich prifysgol leol, neu SOAS (yr Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd), SSEES (yr Ysgol Astudiaethau Slafonig a Dwyrain Ewrop) neu Goleg Birkbeck, sydd i gyd yn rhan o Brifysgol Llundain.

Mae diogel yn flaenoriaeth – mae'r bobl ifanc hyn yn arbennig o agored i gael eu masnachu ac i bobl gamfanteisio arnynt, ac maen nhw'n aml yn mynd ar goll o'r system ofal.

- ▶ Ystyriwch a yw'r person ifanc wedi'i fasnachu, neu a yw'n agored i gael ei fasnachu
- ▶ Ystyriwch faint o berygl sydd i'r person ifanc fynd ar goll o'r system ofal
- ▶ Bydd angen ffotograff o'r person ifanc (gyda'i ganiatâd). Gallai helpu i adnabod y person ifanc pe nai'n mynd ar goll yn nes ymlaen

Os oes perygl gwirioneddol y gallai'r person ifanc gael niwed oherwydd y bobl sydd gydag ef neu hi, gallai fod yn briodol gofyn am orchymyn llys i roi'r person ifanc dan ofal yr awdurdod lleol. Gallai'r darpariaethau brys o dan Ddeddf Plant 1989 (a 46. 47) fod yn berthnasol, yn enwedig os yw'r person ifanc wedi dod o dan eich gofal ar ôl i'r heddlu ymyrryd.

Os yw'r bobl ifanc hyn wedi'u trosglwyddo i'r DU o dan drefniant Dulyr III i ymuno ag aelodau o'r teulu, efallai y bydd angen iddynt 'dderbyn gofal' o hyd os na allant fyw gyda'u perthynas yn y DU.

**Llety** Os yw'r heddlu neu'r awdurdodau mewnfudo'n cadw'r person ifanc ac nad oes amheuaeth am ei oedran, bydd angen llety ar unwaith ar y person ifanc. Mae hynny'n golygu y bydd yn 'derbyn gofal' yn awtomatig.

**Oedran** Os oes amheuaeth wirioneddol am oedran plentyn, neu os oes amheuaeth am oedran person ifanc a bod yr achos wedi'i gyfeirio atoch ar ôl i'r person ifanc eisoes dreulio amser mewn llety i oedolion, canlyniad uniongyrchol yr asesiad llesiant fydd cynnal asesiad oedran i bennu a yw'r person ifanc yn 'blentyn' (o dan 18) ai peidio. Gweler yr adran ar Asesiadau Oedran i gael gwybod mwy.

- ▶ Mae'n *rhaid* i Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI) gyfeirio plant a phobl ifanc at y gwasanaethau plant heblaw bod eu golwg gorfforol neu eu hymarweddiad yn 'awgrymu'n gryf iawn' eu bod dros 18.
- ▶ Os yw Fisâu a Mewnfudo y DU o'r farn bod yr unigolyn yn amlwg dros 18, ond yn dweud yn swyddogol nad ydynt yn siŵr, neu y gallai'r person ifanc fod o dan 18, gallwch eu herio i gymryd cyfrifoldeb am y person ifanc. Fel arall, gallech fod yn rhoi pobl eraill sydd dan eich gofal mewn perygl.
- ▶ Os oes amheuaeth ynghylch oedran y person ifanc a bod angen i chi gynnal asesiad oedran, mae'r gyfraith achosion yn awgrymu y dylech drin y person ifanc, o ran llety, 'fel plentyn' hyd nes y bydd yr asesiad oedran wedi'i gwblhau.

Gallwch dderbyn yr hyn y mae'r person ifanc yn dweud yw ei oedran, ac arfer eich disgresiwn i beidio â chynnal asesiad oedran.

# Bodloni'r anghenion mwyaf dybryd – Cynllun Gofal a Chymorth

Er mai'r ddyletswydd gyntaf yw paratoi Cynllun Gofal a Chymorth, os yw'r person ifanc yn 16 neu'n hŷn, neu pan fydd y person ifanc yn troi'n 16, dylai hwn droi'n Gynllun Llwybr, i baratoi'r person ifanc at fod yn oedolyn. Ceir rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Llwybr yn nes ymlaen yn y Canllawiau hyn.

## Llety

Mae'n debyg y byddwch yn ymdrin â rhywun hŷn yn ei ardegau, sydd efallai bron yn 18. Gall pennu pa lety sy'n addas fod yn heriol am nifer o resymau:

- ▶ Oedran y person ifanc
- ▶ Anghenion ieithyddol a diwylliannol
- ▶ Anghenion iechyd

Er y bydd adegau pan fydd gofal maeth yn briodol, yn enwedig ar gyfer plant ifanc, gall lleoliadau lletya a gynhelir neu leoliadau lled-annibynnol gyda phobl ifanc eraill fod yn amgylchedd mwy addas i bobl ifanc 16 a 17 oed sydd dan eich gofal, a bydd llawer ohonynt yn mwynhau'r annibyniaeth y mae hynny'n ei rhoi iddynt.

Os yw'r bobl ifanc hyn wedi dod i'r DU i ymuno â pherthynas o dan drefniant Dulyn III ond nad ydynt yn gallu byw gyda'u perthynas, mae angen i'r awdurdod lleol hwyluso cyswllt â'r perthnasau ac, os oes angen gwneud hynny, ariannu cludiant i hwyluso'r cyswllt.

# Iechyd a Llesiant

## Asesiad Iechyd

Dylech ddilyn eich proses arferol, gan weithio gyda nyrsys plant sy'n derbyn gofal fel y bo'n briodol. Yn ogystal â'ch asesiad arferol eich hun, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lleol sicrhau bod ceiswyr lloches yn cael asesiad iechyd i sgrinio am afiechydon traws-drosglwyddadwy fel TB. Bydd y bwrdd iechyd hefyd am imiwneiddio yn ôl y galw. Os ydych mewn ardal wasgaru, efallai y bydd clinig penodol i geiswyr lloches lle y gall yr asesiadau hyn gael eu gwneud gan weithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig. Os nad yw hynny'n bosib, meddyg teulu'r person ifanc fydd yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd. Fel gyda phob plentyn sy'n derbyn gofal, mae'n ddyletswydd arnoch i wneud yn siŵr bod y person ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu ymhen 10 diwrnod.

## A oes pethau eraill penodol y dylid chwilio amdanynt?

Bydd pobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n dod i Gymru fel arfer wedi dioddef siwrnai hir a chymhleth ac wedi profi caledi ar y ffordd. Efallai y bydd digwyddiadau yn y wlad lle'r oeddent yn byw cyn dod i'r DU wedi achosi trawma iddyn nhw yn ogystal â'u profiadau wrth deithio i'r DU a chael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd.

## Dylech fod yn chwilio am bethau fel

- ▶ Anffurfio organau cenedlu menywod (FGM)
- ▶ Anhwylder Straen wedi Trawma (PTSD) a phroblemau iechyd meddwl eraill
- ▶ Diffyg maeth
- ▶ Cam-drin corfforol/rhywiol
- ▶ Safbwyntiau eithafol

Gall rhai o'r rhain hefyd fod yn arwyddion eu bod wedi'u **masnachu**.

## Mental health issues

Mae llawer o'r bobl ifanc sy'n ceisio lloches yn y DU wedi dangos eu bod yn eithriadol o wydn. Ond mewn rhai achosion bydd iechyd meddwl y person ifanc yn peri pryder. Efallai y bydd gan y bobl ifanc hyn broblemau iechyd meddwl oherwydd eu profiadau yn eu mamwlad, yn ystod eu siwrnai i'r DU, neu oherwydd yn sefyllfa maen nhw ynddi ar ôl dod yma. Gall ansicrwydd ynghylch eu statws mewnffudo, ac o bosib deimlo'n gymdeithasol ynysig pan fyddant yn y DU, achosi problemau iechyd meddwl.

Gallwch ddilyn arweiniad gweithwyr iechyd proffesiynol yma, ond mae'n werth gadael i'r person ifanc ymsefydlu yn ei leoliad cyn ystyried ei gyfeirio, heblaw pan fydd y person ifanc yn ei chael yn anodd dod i ben.

Os yw'n briodol cynnal asesiad iechyd meddwl ar unrhyw adeg, mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu addas wrth law er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyswllt â CAMHS yn ystyrlon ac yn fuddiol i'r person ifanc.

I'ch helpu i ddeall mwy am anghenion iechyd pobl ifanc, mae gwefan iechyd UASC yn darparu gwybodaeth dda (gweler yr adran Adnoddau).

## Gwybodaeth am wledydd

Mae gwybodaeth ynghylch y wlad y daeth y person ifanc ohoni ar gael ar-lein, neu o lyfrynau megis:

[corambaaf.org.uk/books/caring-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people](http://corambaaf.org.uk/books/caring-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people)

You can also look at the country information reports on the Human Rights Watch website:

[www.hrw.org/countries](http://www.hrw.org/countries),

gwefan y BBC: [news.bbc.co.uk/1/hi/country\\_profiles/default.stm](http://news.bbc.co.uk/1/hi/country_profiles/default.stm)

a gwefan Amnest Rhyngwladol: [www.amnesty.org/en/countries](http://www.amnesty.org/en/countries)

# Addysg a Hyfforddiant

Bydd pobl ifanc sy'n dod i'r DU i geisio lloches wedi cael profiadau gwahanol iawn o addysg. Mae rhai pobl ifanc yn cyrraedd yn medru'r Saesneg yn dda, ac mae eraill heb fawr ddim Saesneg. Bydd rhai wedi cael addysg at lefel uchel yn eu mamwlad, ac eraill heb gael fawr ddim addysg.

Beth bynnag fo'u cefndir, mae llawer o bobl ifanc sy'n dod i'r DU ac i Gymru'n awyddus i barhau â'u haddysg neu gael hyfforddiant. Mae'n hollbwysig, ar ôl i'w hanghenion gael eu nodi, eich bod yn cydweithio'n agos â chydweithwyr ym myd addysg i sicrhau bod lleoedd priodol yn cael eu clustnodi mewn ysgolion, colegau neu hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny.

Mae dysgu Saesneg yn flaenoriaeth i'r bobl ifanc hyn. Efallai y bydd cyrsiau ESOL ar gael yn lleol. Efallai y byddwch am annog pobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofal y bobl ifanc – pobl fel gofalwyr maeth, gofalwyr llety a gynhelir neu staff cymorth mewn llety lled-annibynnol – i dreulio amser yn siarad Saesneg â'r bobl ifanc i helpu i ddatblygu eu hiaith. Gall gwella'u sgiliau Saesneg helpu'r bobl ifanc hyn i ddangos eu hymrwymiad i ymgartrefu yn y DU.



# Masnachu pobl – a smyglo

## Beth yw masnachu pobl?

Mae pobl – oedolion yn ogystal â phlant a phobl ifanc – yn cael eu masnachu pan gânt eu cymryd neu eu cadw yn rhywle er mwyn camfanteisio arnynt. Efallai na fydd rhai plant yn ymwybodol eu bod wedi'u masnachu, ac efallai y bydd eraill yn amharod i esbonio'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. Gall plentyn ar ei ben ei hun fod wedi'i fasnachu neu'n agored i gael ei fasnachu hyd yn oed os daeth i'ch sylw cyn i'r camfanteisio ddigwydd.

Mae'n bosib na fydd pryderon yn codi am y bobl ifanc hyn tan ar ôl iddynt gael eu lleoli gyda gofalwr maeth, neu fynd i fath arall o lety.

## Peidiwch â drysu rhwng smyglo a masnachu

Bydd nifer sylweddol o bobl ifanc sy'n dod i'r DU ac yn ceisio lloches wedi eu smyglo yma. Fe fyddant wedi talu rhywun i ddod â nhw i'r DU, ac efallai wedi treulio amser yn gweithio i asiant er mwyn codi'r arian – neu yn lle talu ag arian. Os nad yw'n fwriad gan y smyglwr wneud dim ond sicrhau bod y person ifanc yn cyrraedd y DU, yna mae'n annhebygol bod y bobl hyn yn cael eu masnachu.

## Sut i ymateb os ydych yn amau bod pobl ifanc wedi'u masnachu

Os ydych yn poeni am blentyn ac yn amau ei fod wedi'i fasnachu, dylech gysylltu â Gwasanaeth Annibynnol Masnachu Plant Barnardos ([barnardos.org.uk/cta.htm](http://barnardos.org.uk/cta.htm)). Mae Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant (ICTAs) ar gael yng Nghymru – gweithwyr proffesiynol arbenigol a fydd yn gallu cynorthwyo plant sydd efallai wedi cael eu masnachu.

Os oes tystiolaeth gref fod person ifanc **wedi** cael ei fasnachu, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) fel 'ymatebwr cyntaf'.

- ▶ Bydd angen i chi lenwi ffurflen atgyfeirio i Ganolfan Masnachu Pobl y DU [www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/specialist-capabilities/uk-human-trafficking-centre](http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/specialist-capabilities/uk-human-trafficking-centre). Mae hon yn rhan o'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol.
- ▶ Does dim angen cydsyniad y person ifanc arnoch i gyfeirio'r achos.

## Canlyniad y penderfyniad ynglŷn â masnachu

Bydd yr NRM yn cyhoeddi ei benderfyniad yn gyflym iawn – fel arfer ymhen 5 diwrnod. Efallai y bydd gan y person ifanc hawl i gael 45 diwrnod o 'adfer a myfyrio' mewn llety diogel tra cynhelir ymchwiliad i'w amgylchiadau. Mewn gwirionedd, dyw hynny'n gwneud dim gwahaniaeth o ddydd i ddydd i'r person ifanc, oherwydd bydd eisoes wedi cael llety gan yr awdurdod lleol. Er hynny, gall unrhyw benderfyniad fod yn bwysig i ganlyniad cais y person ifanc am loches.

# Asesiadau Oedran

Gall yr asesiad oedran fod yn rhan enfawr o'r gwaith cychwynnol a wneuch gyda phobl ifanc sy'n cyrraedd y DU heb eu teuluoedd. Mae'n broses gymhleth ac mae iddi oblygiadau aruthrol i'r bobl ifanc o ran y gofal a'r cymorth y bydd ganddynt hawl i'w cael yn y DU. Dim ond cyflwyniad i'r asesiad oedran a chrynodeb bras ohono a roddir yma.

Dylai ymarferwyr bob amser gyfeirio at y Pecyn Cymorth Asesiadau Oedran i gael cyngor ac arweiniad mwy manwl [www.wsmg.org.uk/documents/wsmg/News%20and%20Events/150330%20Age%20Assessment%20Toolkit%20Final%20July.pdf](http://www.wsmg.org.uk/documents/wsmg/News%20and%20Events/150330%20Age%20Assessment%20Toolkit%20Final%20July.pdf)

## Pwysigrwydd yr asesiad oedran

Mae'n hollbwysig cadarnhau eich bod yn ymdrin â 'phlentyn' (o dan 18) er mwyn sicrhau ei fod yn cael y cyngor a'r cymorth iawn. Mae hefyd yn bwysig sicrhau diogelwch unrhyw blant neu bobl ifanc eraill sy'n agored i niwed ac sydd yn yr un lleoliad â'r person ifanc.

- ▶ Mae oedran yn effeithio ar ba asiantaethau sy'n gyfrifol am gynnis cymorth i'r person ifanc tra bydd yn y DU. Mae hefyd yn effeithio ar y ffordd y mae'r cais am loches yn cael ei brosesu.
- ▶ Nid digwyddiad yw'r asesiad oedran, ond proses. Os daw gwybodaeth i'r amlwg yn ddiweddarach sy'n awgrymu bod y person ifanc yn hŷn nag y mae wedi'i honni, neu'n hŷn na'r oedran a bennwyd yn yr asesiad oedran cychwynnol, gallwch gynnal asesiad oedran arall.

Efallai y bydd angen i chi/yr awdurdod lleol gynnal asesiad oedran at eich dibenion eich hun – i bennu pa gymorth y dylai'r person ifanc ei gael, a phwy ddylai ddarparu'r cymorth.

## **Hyd yn oed os ydych yn meddwl y gallai'r person ifanc fod dros 18, fe ddylai gael ei drin fel plentyn hyd nes y bydd yr asesiad oedran wedi'i gwblhau.**

### **Pwy sy'n rhoi'r asesiad oedran ar waith?**

Efallai y bydd y swyddogion mewnfudo sydd wedi dod i gysylltiad â'r person ifanc wedi gwneud penderfyniad am y person ifanc ac wedi amau ei oedran, ac felly efallai y bydd y person ifanc yn cael ei drin fel oedolyn. Mae'r Swyddfa Gartref yn ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau i'w staff ynghylch asesu oedran pobl ifanc, ond ddylai hyn ddim eich atal chi rhag cynnal eich asesiad oedran eich hun os ydych yn meddwl bod angen gwneud hynny.

Dim ond os yw golwg gorfforol neu ymarweddiad person ifanc yn 'awgrymu'n gryf iawn' ei fod dros 18 y gall Fisâu a Mewnfudo y DU drin person ifanc sy'n honni bod o dan 18 fel oedolyn.

Mae'n bosib y bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn gofyn i'r Gwasanaethau Plant gynnal asesiad oedran sy'n 'cydymffurfio â Merton'. Nid oes rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad oedran heblaw bod ganddo'i resymau ei hun dros feddwl bod y person ifanc y gofynnwyd i chi ofalu amdano gryn dipyn yn hŷn na 18 oed, neu heblaw bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg ynghylch ei oedran. Gall y Swyddfa Gartref herio eich penderfyniad i beidio ag asesu oedran y person ifanc.

### **Llety yn ystod asesiad oedran**

Os caiff y person ifanc ei gyfeirio atoch yn syth ar ôl cyrraedd a'i fod yn honni ei fod o dan 18, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ei drin fel plentyn, a darparu llety hyd nes y bydd asesiad oedran wedi'i gynnal. Cofiwch fod hynny'n golygu y gall person ifanc y penderfynir yn ddiweddarach ei fod dros 18 fod mewn llety am gyfnod gyda phlant iau, er enghraifft mewn cartref maeth.

### **Pwyntiau allweddol am broses yr asesiad oedran**

Gall proses yr asesiad oedran fod yn straen ar y bobl ifanc dan sylw ac mae'n werth cofio y gall y profiad o ddod i Gymru effeithio ar eu golwg a'u hymarweddiad a'u hagwedd. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod pobl o rai gwledydd yn aeddfedu'n gynt na'u cyfoedion gwyn yn y gorllewin, h.y. o ran blew'r wyneb, taldra a chorffolaeth.

Mae gan y bobl ifanc hyn hawl i gael oedolyn priodol, neu eiriolwr a fydd yn gallu bod yn oedolyn priodol hefyd, gyda nhw yn ystod yr asesiad oedran. Er na all yr oedolyn priodol ateb cwestiynau dros y person ifanc bydd yn gallu, ac fe ddylai, gefnogi'r person ifanc yn ystod y broses. Yn benodol, gwaith yr oedolyn priodol yw:

- ▶ gwneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall yr hyn sy'n digwydd a pham (gobeithio y bydd eisoes yn deall hyn oherwydd y gwaith rydych wedi'i wneud gyda'r person ifanc cyn yr asesiad);
- ▶ ymyrryd i ofyn am seibiant os bydd angen hynny ar y person ifanc, efallai i ymgynghori â chynghorwyr cyfreithiol, neu â'r oedolyn priodol, neu os yw'r person ifanc yn ofidus neu'n edrych yn flinedig neu'n anhwylyd;
- ▶ ymyrryd os nad yw'r bobl sy'n cynnal yr asesiad oedran yn gweithredu'n briodol ac yn deg;
- ▶ helpu'r person ifanc i gyfathrebu â'r bobl sy'n cynnal yr asesiad oedran;
- ▶ sicrhau bod y person ifanc yn deall y gall gael cyngor cyfreithiol a'i fod yn deall ei hawliau drwy gydol proses yr asesiad oedran.

Dylai'r oedolyn priodol fod yn annibynnol ar y person ifanc a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr asesiad oedran. Gan hynny, gan mai chi yw'r gweithiwr cymdeithasol sy'n gyfrifol am y person ifanc, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'annibynnol' at ddibenion cyfweliadau'r asesiad oedran.

Os bydd y person ifanc yn penderfynu peidio â chael oedolyn priodol yn bresennol, dylech wneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall beth yw rôl yr oedolyn priodol, a cheisio cael gwybod a oes rheswm pam y mae'n gwrthwynebu. Os bydd y person ifanc yn parhau i wrthod cael oedolyn priodol, dylech barchu'r dymuniadau hynny.

Os oes angen cyfeithydd, bydd angen trefnu hynny. Mae'n bwysig holi'r person ifanc i gael gwybod cyfeithydd o ba rywedd y byddai'n well ganddo'i gael ac a oes ganddo unrhyw ofynion tafodieithol arbennig.

Gall yr asesiad oedran fod yn broses hir. O safbwynt ymarferol, gwnewch yn siŵr bod gan y person ifanc sydd dan eich gofal fwyd a diod, a dillad addas er mwyn bod yn gyfforddus yn ystod y dydd. Dylech hefyd holi'r person ifanc a yw'r amgylchedd yn gyfforddus iddo.

**Mae cynnal asesiad oedran yn broses gymhleth ac yn cynnwys amryw helaeth o ffactorau, a phob un yn cael ei ystyried ac yn cael sylw.**

## Beth sy'n digwydd pan fydd yr asesiad oedran ar ben?

- ▶ Os yw'r asesiad oedran yn canfod bod y person ifanc yn 18 neu'n hŷn, dylid cyfeirio'r achos at y Swyddfa Gartref er mwyn cael cymorth a llety.
- ▶ Os aseswyd bod y person ifanc o dan 18, dylai barhau i gael llety gan yr awdurdod lleol.
- ▶ Os yw'r asesiad o oedran y person ifanc wedi newid bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddfa Gartref. Mae angen hysbysiad ysgrifenedig ar y Swyddfa Gartref fod y person ifanc yn 18 neu'n hŷn cyn y gall roi llety a chymorth i'r person ifanc.
- ▶ Dylech roi gwybod i'r Swyddfa Gartref beth yw canlyniad yr asesiad oedran gan ddefnyddio'r ffurflen rhannu gwybodaeth am asesiad oedran.
- ▶ Dylech roi copi o'r asesiad oedran llawn i'r person ifanc, ac os yw'n briodol, i'w eiriolwr neu gynghorydd cyfreithiol hefyd. Efallai y byddant am herio canlyniad yr asesiad.
- ▶ Efallai y bydd y Swyddfa Gartref yn bwrw amheuaeth ar ganlyniad yr asesiad oedran. Unwaith y cytunir ar yr oedran cydnabyddedig, mae angen newid yr holl gofnodion a dogfennau i ddangos y dyddiad geni cydnabyddedig. Lle y bo hynny'n briodol, dylid rhoi'r dogfennau priodol i'r person ifanc ac i unrhyw sefydliadau perthnasol eraill.

## Asesiadau Oedran ac Adolygiadau Barnwrol

Mae'r asesiad oedran yn agored i adolygiad barnwrol. Proses gyfreithiol yw hon i herio'r ffordd y mae penderfyniad wedi'i wneud. Nid yw'n herio'r penderfyniad ei hun. Efallai y bydd y cais am adolygiad barnwrol yn golygu yn y pen draw fod yn rhaid i chi gynnal yr asesiad eto – er enghraifft os yw'r llys yn canfod na wnaethoch ystyried darn o wybodaeth y dylech fod wedi'i ystyried, neu eich bod wedi ystyried rhywbeth oedd yn amherthnasol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i chi wneud penderfyniad gwahanol, dim ond bod yn rhaid i chi ddangos sut yr oedd darn o dystiolaeth yn berthnasol neu'n amherthnasol. Os yw'r dystiolaeth yn awgrymu y dylech fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol, gallai'r adolygiad barnwrol lwyddo ar y sail bod eich penderfyniad gwreiddiol yn 'wrthnysig'.

Os yw'r person ifanc yn penderfynu mynd am adolygiad barnwrol o'ch penderfyniad, gallai'r nodiadau a wneuch yn ystod yr asesiad oedran, yn ystod y broses ac yn union ar ôl y broses ac wrth wneud y penderfyniad fod yn dystiolaeth bwysig i ddangos beth wnaethoch chi neu beth wnaethoch chi ddim ei ystyried, a faint o bwys a roddwyd ar y gwahanol ffactorau. Bydd yn ddefnyddiol cadw nodiadau llawn a chofnodi'r penderfyniadau a wnaed a'r dystiolaeth i ategu'r penderfyniadau hyn.

## Y Broses Lloches

Os nad yw'r person ifanc eisoes wedi hawlio lloches, a'i fod eisieu gwneud hynny, mae'n rhaid iddo wneud hynny cyn gynted â phosib. Er mwyn cyflwyno cais am loches, bydd yn rhaid i'r person ifanc fynd i gyfweiliad Cyfarfyddiad Cyntaf a Lles. Bydd y cais am loches yn cael ei wneud fel arfer yn un o Swyddfeydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref – yng Nghymru, yn Fisâu a Mewnfudo y DU ar Heol Casnewydd, Caerdydd. Mae'n rhaid i chi helpu'r person ifanc i drefnu amser a dyddiad ar gyfer y cyfweiliad, a'i helpu i gyrraedd y cyfweiliad. Os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yng Nghaerdydd am ryw reswm, efallai y bydd yn rhaid i chi helpu'r person ifanc i wneud trefniadau i deithio i swyddfeydd Fisâu a Mewnfudo y DU yn Croydon neu yn Solihull i fynd i'r cyfarfod hwn.

Hyd nes y bydd y person ifanc wedi cyflwyno'r cais am loches yn swyddogol fel hyn, nid yw'n cyfrif fel 'ceisiwr lloches' ac felly nid yw'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol a chynghor cyfreithiol. Os ydych yn meddwl bod angen o leiaf rywfaent o gynghor cyfreithiol ar y person ifanc, dylech helpu'r person ifanc i ddod o hyd i gyfreithiwr a fydd efallai'n gallu rhoi cynghor cychwynnol am ddim neu ar sail pro bono, ond mae'n fwy tebygol y codir tâl am hynny.

Mae Cymorth Cyfreithiol yn awr ar gael ar gyfer pob agwedd ar fewnfudo sy'n ymwneud â phobl ifanc ar eu pen eu hunain. Mae modd cael gafael ar y cymorth hwn drwy gyllid achosion eithriadol hyd nes y gwneir y newidiadau cyfreithiol angenrheidiol.

Dylech helpu'r person ifanc i gofrestru'r cais am loches cyn gynted â phosib. Er mwyn dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau i gynorthwyo'r person ifanc, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol allu darparu tystiolaeth o'r camau y mae wedi'u cymryd i helpu'r person ifanc i gofrestru'r cais am loches, a'r camau eraill y mae wedi'u cymryd.

Bydd pobl ifanc sydd wedi dod i'r DU o dan drefniant Dulyn III i ymuno â'u teuluoedd yn geiswyr lloches o hyd a bydd angen cymorth arnynt i fwrw ymlaen â'u cais am loches yn y DU.

## Cyfweiliad Cais am Lloches

Bydd yn rhaid i bobl ifanc 12 oed neu drosodd fynd i gyfweiliad lloches sylweddol heblaw bod rhesymau eithriadol pam na ddylid cynnal yn cyfweiliad. Cyn y cyfweiliad, bydd y person ifanc wedi gorfod paratoi ffurflen Datgan Tystiolaeth. Dylai'r person ifanc gael help cyfreithiol i gwblhau'r ddogfen hon.

Os na fydd y person ifanc yn bresennol yn y cyfweiliad lloches sylweddol, gallai'r cais am loches gael ei wrthod oherwydd diffyg cydymffurfiaeth. Pan fyddwch chi'n ymwneud â'r achos fel gweithiwr cymdeithasol, ac nad yw'r person ifanc wedi dod i'r cyfweiliad, dylai gweithiwr achos Fisâu a Mewnfudo y DU gysylltu â chi i holi pam na ddaeth y person ifanc i'r cyfweiliad. Os ydych yn gwybod ymlaen llaw fod rhyw broblem ynglŷn â dod i'r cyfweiliad, er enghraifft salwch neu broblemau trafndiaeth, dylech drafod hyn â'r swyddog achos cyn gynted â phosib.

### Bod yn 'oedolyn cyfrifol'

Mae gan y person ifanc hawl i ddod â rhywun y mae'n ymddiried ynddo i'r cyfweiliad lloches fel 'oedolyn cyfrifol'. Dylai'r oedolyn cyfrifol hefyd fod yn bresennol pan gymerir olion bysedd y person ifanc, a gall hefyd fod yn bresennol yn ystod y cyfweiliad lles cychwynnol. Mewn sawl ffordd, mae rôl yr oedolyn cyfrifol yn debyg i rôl yr oedolyn priodol yn yr asesiad oedran.

Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Geisiadau am Loches gan Blant, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2017, yn cynnwys rhestr fanwl, ond heb fod yn gynhwysfawr, o ddyletswyddau'r oedolyn cyfrifol, sef:

- ▶ darparu cymorth annibynnol i'r plentyn a gweithredu er budd pennaf y plentyn
- ▶ gofalu am lesiant y plentyn fel bod y plentyn yn teimlo y gall gymryd rhan yn y gweithdrefnau lloches mewn ffordd sy'n bodloni ei anghenion lles ac yn cydnabod ei aeddfedrwydd
- ▶ codi unrhyw faterion lles y mae angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau wybod amdanynt, cyn, yn ystod neu ar ôl y cyfweiliadau fel bod anghenion lles y plentyn yn cael sylw gweithredol drwy gydol y broses
- ▶ sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gyfforddus drwy gydol y broses gyfweld
- ▶ sicrhau bod y plentyn yn deall y broses gyfweld
- ▶ rhoi cymorth a sicrwydd moesol yn ôl y galw i'r person ifanc
- ▶ hwyluso cyfathrebu rhwng y plentyn a'r swyddog sy'n cyfweld yn ôl y galw
- ▶ sicrhau y darperir yn ddigonol ar gyfer holl anghenion lles y plentyn yn ystod y broses gyfweld, megis digon o seibiant a lluniaeth
- ▶ cynnig unrhyw wybodaeth ychwanegol i'r swyddog sy'n cyfweld a allai fod yn

berthnasol i lesiant emosiynol y plentyn a'i ffitrwydd i gael ei gyfweld (er enghraifft, rhoi gwybod i'r swyddog os yw'r plentyn yn ymprydio neu os yw wedi cael siwrnai hir ac wedi gorfod cychwyn yn gynnar i gyrraedd y cyfweiliad)

Dylid rhoi cyfle i'r oedolyn cyfrifol i siarad yn breifat â'r person ifanc cyn y gwrandawriad ac, os oes angen hynny, yn ystod egwyl yn y cyfweiliad, er mai byr fydd yr egwyl ac na all ychwanegu'n ormodol at hyd y cyfweiliad cyfan. Ni fydd yr oedolyn cyfrifol yn cael ateb cwestiynau ar ran y person ifanc ond gall ymyrryd os yw'r person ifanc yn ofidus neu'n flinedig a bod angen seibiant arno. Dylai weithio gyda chynrychiolydd cyfreithiol y person ifanc, a fydd hefyd yn bresennol yn y cyfweiliad.

Dylai'r oedolyn cyfrifol a'r cynrychiolydd cyfreithiol gadw unrhyw sylwadau tan ddiwedd y cyfweiliad er mwyn peidio ag amharu ar lif y cyfweiliad, ac eithrio:

- ▶ pan fo oedran neu aeddfedrwydd y person ifanc yn awgrymu nad yw'n gallu deall y cwestiwn yn iawn ac efallai fod angen estyn cymorth
- ▶ pan fo oedran ac aeddfedrwydd y person ifanc yn awgrymu nad yw'n gallu gosod yr hyn sy'n cael ei ofyn yn ei gyd-destun yn iawn
- ▶ pan fo'r pwnc trafod yn amlwg yn peri gofid i'r person ifanc a'i bod yn briodol estyn cymorth
- ▶ pan yw'n amlwg nad yw'r person ifanc yn deall y cwestiynau

Efallai na fydd yn briodol i chi, fel gweithiwr cymdeithasol y person ifanc, fod yn oedolyn cyfrifol oherwydd mae'n bosib y bydd gennych wybodaeth sy'n wahanol i'r wybodaeth y mae'r person ifanc yn ei rhoi yn ystod y cyfweiliad.

Mae angen i chi ystyried sut y byddech yn ymateb pe bai'r plentyn yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdodau mewnfudo sy'n wahanol i'r wybodaeth y mae wedi'i rhoi i chi, neu rydych wedi'i dysgu drwy ddulliau eraill. Nid cynorthwyo'r awdurdodau mewnfudo yw swyddogaeth yr oedolyn cyfrifol, ond helpu'r person ifanc. Os gallai fod gwrthdaro, efallai nad chi fydd y person gorau i fod yn oedolyn cyfrifol.

### Cyfweiliad Profi Iaith

Os nad yw'r Swyddfa Gartref yn credu bod y person ifanc yn dod o'r wlad y mae wedi dweud y mae'n dod ohoni, efallai y bydd angen cynnal cyfweiliad profi iaith. Dim ond ar gyfer pobl ifanc sy'n 12 neu'n hŷn y bydd hyn yn digwydd. Cynhelir y cyfweiliad dros y ffôn.

## Dyletswyddau o ran cyngor cyfreithiol

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynorthwyo'r person ifanc i gael cyngor cyfreithiol. Mae ceisio am loches yn broses gymhleth a bydd angen cyngor cyfreithiol a chymorth ar y person ifanc rydych yn gyfrifol amdano drwy gydol y broses.

Wedi i'r person ifanc gwblhau'r cyfweiliad sgrinio cychwynnol a chychwyn y cais am loches, bydd yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol, ond gall cael gafael ar gyfreithwyr sy'n ymdrin ag achosion Cymorth Cyfreithiol ei gwneud yn anodd o safbwynt ymarferol i'r person ifanc gael cyngor o'r fath yn gyflym.

I bobl ifanc sydd bron yn 18, mae'n arbennig o bwysig gwneud yn siŵr eu bod yn cael cyngor cyfreithiol da, mewn da bryd, ynglŷn â'u statws mewnfudo a'u cais am loches (neu gais arall). Gall oedi wrth gael cyngor cyfreithiol olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i bennu statws mewnfudo'r bobl ifanc hyn, a gall hynny gael effaith negyddol ar y cais.

Er na allwch roi cyngor cyfreithiol i'r person ifanc ynglŷn â'r cais, gallwch ei helpu i ddod o hyd i gynghorydd cyfreithiol addas. Chewch chi ddim ond awgrymu cynghorwyr posib – mae'n rhaid i'r person ifanc benderfynu pwy fydd yn ei gynrychioli. Ddylech chi ddim ond awgrymu cynghorwyr cyfreithiol sydd wedi'u hachredu'n briodol – naill ai gan Gymdeithas y Gyfraith neu gan Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo (SCGM). Mae'n drosedd darparu cyngor ar faterion yn ymwneud image003.png ffoaduriaid oni bai eich bod yn gyfreithiwr wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, yn fargyfreithiwr wedi'i reoleiddio gan Gyngor y Bar neu rywun nad yw'n gyfreithiwr ond sydd wedi'i awdurdodi gan SCGM ar Lefel 2.

Gellir cael cyngor cyfreithiol drwy'r cynllun Cymorth Cyfreithiol gan gyfreithiwr sydd wedi'i achredu ar Lefel 2 o dan gynllun Cymdeithas y Gyfraith, neu gan gynghorydd cyfreithiol sydd wedi'i achredu gan OISC ar Lefel 2. Er mwyn i gynghorwyr cyfreithiol allu cynrychioli'r bobl ifanc hyn yn y Tribiwnlys Mewnfudo mae'n rhaid iddynt fod wedi'u hachredu ar Lefel 3.

Os yw hi'n anodd dod o hyd i gynghorydd cyfreithiol a all gynrychioli'r person ifanc drwy Gymorth Cyfreithiol, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried ariannu cost y cyngor hwnnw.

Efallai y bydd angen i chi ddarparu llythyr i'r cynghorydd cyfreithiol a ddewisir yn cadarnhau bod y plentyn yn derbyn gofal, a lefel y cymorth y mae'n ei gael. Bydd hynny fel arfer yn ddigon o dystiolaeth fod y plentyn yn cael cymorth a llety gan yr awdurdod lleol i sicrhau Cymorth Cyfreithiol.

Mewn o leiaf un achos y penderfynodd yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol arno yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd bod bai ar gyngor a oedd wedi gwrthod helpu i ariannu cyngor cyfreithiol ynghylch statws mewnfudo plentyn a oedd yn derbyn gofal. Dywedodd yr Ombwdsmon

*"The Council failed to properly balance the cost of the legal advice against the impact of not obtaining appropriate advice to support a 'looked after child'. The Council's responsibility, as a corporate parent, was to safeguard and promote her welfare. Given the circumstances of this case, and the limited costs involved, the Council's failure to fund the advice, or find free advice with a Legal Aid solicitor, was therefore fault." [Investigation into a complaint against Royal Borough of Greenwich (reference number: 13 019 106)]*

Gall fod yn anodd dod o hyd i arbenigwyr ar gyfraith mewnfudo, yn enwedig yng Nghymru. Yn dibynnu ymhle yng Nghymru yr ydych, a ble mae'r person ifanc yn byw, efallai y bydd yn rhaid i'r person ifanc deithio cryn bellter i weld y cynghorydd cyfreithiol. Dylai'r awdurdod lleol hwyluso hyn.

## Canlyniadau'r broses loches

### Statws Ffoadur

Os bydd yn cael lloches, bydd y person ifanc yn cael statws 'ffoadur' a bydd yn cael aros yn y DU am 5 mlynedd. Rhoddir statws ffoadur os oes gan y person ifanc reswm da i ofni erledigaeth yn ei famwlad. Adolygir statws ffoadur y person ifanc ar ddiwedd y 5 mlynedd. Ar ddiwedd y 5 mlynedd, gall y person ifanc hefyd wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros. Os yw'r person ifanc yn derbyn gofal bryd hynny, efallai y bydd angen i chi ei helpu i gael Cymorth Cyfreithiol er mwyn cael cyngor cyfreithiol a chymorth i gwblhau'r broses hon.

### Diogelwch Dyngarol

Os nad yw'r person ifanc yn gymwys i gael statws ffoadur, dylai'r swyddogion mewnfudo sy'n ymdrin â'r cais am loches fynd ymlaen i ystyried a oes modd rhoi diogelwch dyngarol i'r person ifanc. Rhoddir diogelwch dyngarol os derbynnir bod y person ifanc yn wynebu bygythiad gwirioneddol o niwed difrifol o ddychwelyd i'w famwlad. Rhoddir y diogelwch hwn am 3-5 mlynedd, ac adolygir y statws wedi hynny. Ar ôl 5 mlynedd yn y DU o dan ddiogelwch dyngarol, gall y person ifanc wneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros.

## Caniatâd UASC

Os gwrthodir lloches ac os na roddir diogelwch dyngarol, ond nad yw'r trefniadau derbyn yn ddigonol yn y wlad y caiff y person ifanc ei ddychwelyd iddi, ac os yw'r person ifanc o dan 17.5 oed, dylai'r swyddogion mewnfudo roi caniatâd dros dro i'r person ifanc i aros yn y DU fel Plentyn ar ei Ben ei Hun sy'n Ceisio Lloches. Gelwir hyn yn ganiatâd UASC. Rhoddir caniatâd UASC hyd nes y bydd y person ifanc yn 17.5 oed, neu am 30 mis, p'un bynnag sydd fyrraf. Mewn sawl achos, pan ddaw'r caniatâd UASC i ben, bydd yr amodau ar gyfer rhoi'r caniatâd hefyd wedi dod i ben, felly mae'n anodd dadlau dros estyniad pellach i'r caniatâd UASC. Oherwydd yr anawsterau o ran caniatâd UASC, mae'n bwysig bod y person ifanc yn cael gwybodaeth lawn am ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi lloches na diogelwch dyngarol.

## Caniatâd a.67

Cyhoeddwyd y math newydd hwn o ganiatâd ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n berthnasol i bobl ifanc a drosglwyddwyd i'r DU o dan a.67 Deddf Mewnfudo 2018 (gwelliant Dubs). Os na fydd ceisiadau'r bobl hyn am loches yn llwyddiannus, dylid rhoi caniatâd a.67 iddynt i aros yn y DU, ac astudio, gweithio, cael gofal iechyd a hawl i ofyn am arian cyhoeddus am 5 mlynedd. Ar ddiwedd y 5 mlynedd, byddant yn cael gwneud cais i ymgartrefu'n barhaol yn y DU.

## Caniatâd Calais

Cyhoeddwyd y math newydd hwn o ganiatâd ym mis Medi 2018 ac mae'n berthnasol i bobl ifanc a drosglwyddwyd i'r DU o Calais, rhwng mis Hydref 2016 a mis Gorffennaf 2017 drwy fath o aduno teuluol Dilyn III. Mae'r math hwn o ganiatâd yn rhoi hawliau i'r bobl ifanc i astudio, gweithio, cael gofal iechyd a hawl i ofyn am arian cyhoeddus am 10 mlynedd. Ar ddiwedd y 10 mlynedd, byddant yn cael gwneud cais i ymgartrefu'n barhaol yn y DU.

# Aduno teuluoedd

Efallai y bydd y peron ifanc yn gofyn am gael dod ag aelodau eraill o'r teulu i'r DU i fyw gyda nhw. Nid yw'r rheolau mewnfudo'n caniatáu hynny ar hyn o bryd. Maent yn caniatáu i blant ddod i'r DU i ymuno â rhieni sy'n ffoaduriaid ac sydd eisoes yma, ond

nid i frodyr a chwiorydd a rhieni ddod i ymuno â phlentyn sy'n ffoadur. Mewn rhain achosion, mae'n bosib y gallai'r person ifanc ddadlau bod cyfraith hawliau dynol (ac yn benodol Erthygl 8 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) yn golygu y dylai aelodau eraill o'r teulu gael ymuno â'r person ifanc yn y DU. Gallai penderfyniad i atal rhiant/brawd neu chwaer rhag ymuno â phlentyn yn y DU amharu'n anghymesur ar fywyd teuluol y ffoadur ifanc.

Mae'r gyfraith yn newid yn aml. Gwneir newidiadau cyson i'r ddeddfwriaeth ar fewnfudo a'r rheolau mewnfudo ac mae Biliau Aelod Preifat yn aml yn cael eu cyflwyno i'r Senedd, a hynny weithiau'n fwy llwyddiannus na'i gilydd. Mae'n debyg yn bydd Brexit yn arwain at fwy o newidiadau. Mae'n bwysig cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Mae'r Pecyn Cymorth Hawl i Aros a'r wefan 'Free Movement' yn ffynonellau da, hygyrch o wybodaeth sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd (gweler yr adran Adnoddau).

Os canfyddir bod gan y person ifanc rieni, neu rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano yn un o wledydd eraill yr UE, mae'n bosib y bydd yn cael ei ddychwelyd i'r wlad honno er mwyn gallu gwneud cais am loches gyda gweddill y teulu.

Os yw'r person ifanc am olrhain ei deulu ac nad yw'n beryglus i'r person ifanc wneud hynny, gallwch ei helpu i ddefnyddio Gwasanaeth Olrhain Teuluoedd y Groes Goch Brydeinig.

# Cynllunio Llwybr – Cynllunio at y dyfodol

Yn aml iawn, mae'r bobl ifanc sy'n dod i'r DU sy'n cyfrif fel 'Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches' bron yn 18 oed. Er y byddant yn derbyn gofal a llety gan yr awdurdod lleol i gychwyn, bydd angen i chi ystyried beth fydd yn digwydd iddynt wedi iddynt droi'n 18.

Gall fod yn anodd dod o hyd i addysg neu hyfforddiant addas i berson ifanc yr oedran hwn, a bydd yr angen i sicrhau bod ei statws mewnfudo'n swyddogol yn drech na phopeth arall mae'n ei wneud. Bydd datrys hynny'n cael blaenoriaeth, er bod y broses yn debygol o gymryd peth amser, misoedd hyd yn oed.

Nid yw'n sicr o bell ffordd y bydd y person ifanc yn cael lloches neu ddiogelwch dyngarol. Dim ond i nifer fach iawn o bobl ifanc y bydd caniatâd a.67 ar gael. Trefniant dros dro yw caniatâd UASC ac mae'n golygu, hyd yn oed os yw'r person ifanc yn cael caniatâd i aros ar y cychwyn, y gellid gwrthod caniatâd i'r person ifanc aros ar ôl troi'n 18. Os felly, efallai

y byddwch yn gofalu am y person ifanc hyd nes y gellir ei ddychwelyd yn ddiogel i'w famwlad.

Dylai cynllunio llwybr gynnwys y posibilrwydd na fydd y person ifanc yn cael aros yn y DU, ond dylid cynllunio hefyd rhag ofn y bydd yn cael aros, neu y bydd ei statws mewnfudo'n dal heb ei ddatrys pan fydd yn troi'n 18. Mae'n bosib hefyd y bydd y person ifanc yn penderfynu ei fod am fynd yn ôl i'w famwlad o'i wirfodd.

### Ar ôl troi'n 18

Mae unrhyw un sydd wedi derbyn gofal am 13 wythnos yn gymwys i gael cymorth ôl-18 o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r awdurdod lleol gynnig y gwasanaeth hwn i bobl ifanc yng Nghymru sy'n ceisio lloches. Nid yw statws mewnfudo'r person ifanc yn effeithio'n uniongyrchol ar ei hawl i gael cymorth fel 'plentyn sy'n derbyn gofal', ac fel gweithiwr cymdeithasol, fe ddylech deimlo'n hyderus i barhau i gynnig cymorth yn union fel y byddech i unrhyw blentyn arall.

Os yw cais y person ifanc am loches wedi methu, ac nad oes yr un ffordd arall ar ôl iddo i gael caniatâd i aros yn y DU, efallai y bydd yn dal i fod yn gymwys i gael cymorth ôl-18, er bod ei hawl i apelio wedi dod i ben. Dylai cymorth ôl-18 barhau hyd nes y gwneir trefniadau i'r person ifanc ddychwelyd i'w famwlad, ac nad yw'r person ifanc yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Fisâu a Menwfuado y DU i adael y DU.

Gall fod angen cydlynu â'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am oedolion sy'n ceisio lloches yn y DU yn ystod y cyfnod hwn.

Mae cymorth ôl-18 yn parhau hyd nes y bydd y person ifanc yn 21 – neu'n 25 os yw mewn addysg lawn amser. Os yw statws ffoadur neu ddiogelwch dyngarol y person ifanc yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod hwn neu os yw'r person ifanc am wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros, bydd angen i'r awdurdod lleol ei helpu i wneud hynny. Gallai hyn gynnwys ariannu cyngor cyfreithiol os nad oes cymorth cyfreithiol ar gael mwyach am fod y person ifanc yn 18 neu'n hŷn.

### Anghymwys i gael cymorth ôl-18 gan yr awdurdod lleol

Ni fydd person ifanc a ddechreuodd dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol lai na 13 wythnos cyn troi'n 18 yn gymwys i gael cymorth ôl-18 gan yr awdurdod lleol, a bydd angen i'r person ifanc drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion. Efallai y byddwch yn gallu helpu'r person ifanc i drosglwyddo i'r system fel oedolyn sy'n ceisio lloches. Gallwch esbonio i'r person

ifanc y gallai fod yn gymwys i gael rhywle i fyw a lwfans wythnosol.

Y Swyddfa Gartref, nid yr awdurdod lleol, sy'n rhoi cymorth i oedolion sy'n ceisio lloches yn y DU ond nid yw'n cael ei roi ym mhob achos a gall fod yn anodd i oedolion sy'n ceisio lloches gael y cymorth hwn.

Efallai hefyd y bydd angen help ar y person ifanc i gadw golwg ar ei gais am loches os nad yw'n cael cymorth gan weithiwr cymdeithasol/yr awdurdod lleol mwyach. Bydd angen i'r person ifanc gymryd camau i wneud ei statws yn swyddogol mewn rhyw ffordd arall os gwrthodir y cais am loches yn y pen draw. Efallai y gallech helpu'r person ifanc i gysylltu ag elusennau, grwpiau cymunedol neu sefydliadau eraill a all roi cymorth a chyngor, fel nad yw'r person ifanc yn teimlo nad oes dim cymorth ar gael iddo ar ôl troi'n 18.

## Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches – dinasyddion y dyfodol

Oherwydd cymhlethdod rheolau mewnfudo'r DU bydd yn rhaid i chi ystyried ffactorau eraill y tu hwnt i'r rhai rydych yn dod ar eu traws gyda phobl ifanc eraill sydd dan eich gofal. Er y gall asesiadau oedran a statws mewnfudo ychwanegu haenau ychwanegol at y gofal a'r cymorth a roddwch, yn y bôn, plant yw'r bobl ifanc hyn o hyd. Peidiwch byth â bod ag ofn edrych y tu hwnt i label 'Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches' a chydabod bod y bobl ifanc hyn yn ddinasyddion y dyfodol, a chanddynt yr un hawliau dynol â phob plentyn arall dan eich gofal.

Bydd eich proffesiynoldeb a'ch uniondeb yn chwarae rhan fawr iawn wrth helpu'r bobl ifanc hyn i arfer eu hawliau: a chaniatáu iddynt gael eu trin â pharch, a chael cymorth a llais wrth iddynt ddilyn llwybr cymhleth ceisio lloches yn y DU.

# Adnoddau

## Y fframwaith cyfreithiol

**Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

[www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights](http://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights)

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

[www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents)

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Codau Ymarfer, Rheoliadau a Chanllawiau**

[gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan](http://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan)

## Cyngor ac arweiniad cyfreithiol i weithwyr cymdeithasol ar faterion mewnfudo

**Right to Remain Toolkit.** Adnodd cynhwysfawr sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i ymarferwyr a Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae chwe adran wedi'u cyfieithu i ieithoedd eraill. [righttoremain.org.uk/toolkit](http://righttoremain.org.uk/toolkit)

**Free Movement.** Mae'r wefan hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a gallwch hefyd gofrestru i dderbyn yr eost wythnosol. [www.freemovement.org.uk](http://www.freemovement.org.uk)

**Children's Asylum Claims – Canllawiau'r Swyddfa Gartref, Hydref 2017**

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/650514/children\\_s-asylum-claims-v2\\_0.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/650514/children_s-asylum-claims-v2_0.pdf)

## Adnoddau i bobl ifanc

**Plant yn Gyntaf – Taflenni Ffeithiau i Bobl Ifanc; Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru**

Arweiniad i wneud cais i aros yng Nghymru ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Arweiniad i Hawliau a Hawliadau ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Arweiniad i Gael Gofal ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

## Cyngor cyfreithiol i blant ar faterion mewnfudo

**Coram Children's Legal Centre**

[www.childrenslegalcentre.com](http://www.childrenslegalcentre.com)

## Cyngor cyfreithiol i blant ar y gyfraith yng Nghymru

**Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru**

[childrenslegalcentre.wales/cy/hafan](http://childrenslegalcentre.wales/cy/hafan)

# Canllawiau penodol i Gymru

## Aseidiadau Oedran

**Age Assessment of Unaccompanied Asylum Seeking Children All Wales Multi-Agency Toolkit**

<http://www.wsmc.org.uk/documents/wsmc/News%20and%20Events/150330%20Age%20Assessment%20Toolkit%20Final%20July.pdf>

## Gofal a Diogelu

**All Wales Practice Guidance: Safeguarding and Promoting the Welfare of Unaccompanied Asylum Seeking Children and Young People 2011**

[socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/safeguarding-and-promoting-the-welfare-of-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people-all-wales-practice-guidance](http://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/safeguarding-and-promoting-the-welfare-of-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people-all-wales-practice-guidance)

**All Wales Practice Guidance for Safeguarding Children Who Many Have Been Trafficked 2011**

[socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/all-wales-practice-guidance-for-safeguarding-children-who-may-have-been-trafficked?record-language-choice=en-cy](http://socialcare.wales/research-and-data/research-on-care-finder/all-wales-practice-guidance-for-safeguarding-children-who-may-have-been-trafficked?record-language-choice=en-cy)

## Iechyd

[www.uaschealth.org](http://www.uaschealth.org)

## Asesiadau Oedran

**Canllawiau Cydweithio ar Asesiadau Oedran – wedi'u cymeradwyo gan y Swyddfa Gartref a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant**

[www.gov.uk/government/publications/age-assessment-joint-working-instruction](http://www.gov.uk/government/publications/age-assessment-joint-working-instruction);  
[adcs.org.uk/safeguarding/article/age-assessment-information-sharing-for-unaccompanied-asylum-seeking-children](http://adcs.org.uk/safeguarding/article/age-assessment-information-sharing-for-unaccompanied-asylum-seeking-children)

## Cysylltiadau Defnyddiol

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo**

[www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-immigration-services-commissioner](http://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-immigration-services-commissioner) i weld rhestr o gyfreithwyr mewnfudo cymeradwy

**Fisâu a Mewnfudo y DU**

[www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration](http://www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration)

**Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru**

[www.wsmc.org.uk](http://www.wsmc.org.uk)

**Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Masnachu Plant)**

<http://www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/specialist-capabilities/uk-human-trafficking-centre/national-referral-mechanism>

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**

[welshrefugeecouncil.org.uk](http://welshrefugeecouncil.org.uk)

**Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Masnachu Plant Barnardo's**

[www.barnardos.org.uk/cta.htm](http://www.barnardos.org.uk/cta.htm)

**Gwasanaeth Olrhain Teuluoedd y Groes Goch Brydeinig**

[www.redcross.org.uk/get-help/find-missing-family](http://www.redcross.org.uk/get-help/find-missing-family)

**Gwasanaethau Cyfieithu Cymru**

[www.wits.wales/cy](http://www.wits.wales/cy)

**Language Line**

[www.languageline.com/uk](http://www.languageline.com/uk)

0800 169 2879

**TGP Cymru**

[www.trosgynnal.org.uk](http://www.trosgynnal.org.uk)

**Tim Cymorth Ieuencid Ethnig**


[eyst.org.uk](http://eyst.org.uk)

**Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol**

[www.nyas.net](http://www.nyas.net)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



### **Children's Legal Centre**

Richard Price Building  
College of Law & Criminology  
Swansea University  
Singleton Park  
Swansea  
Wales  
SA2 8PP

✉ [childrenslegalcentre@swansea.ac.uk](mailto:childrenslegalcentre@swansea.ac.uk)

☎ 01792 295399

🐦 @ChildLegalWales

**Canolfan  
Gyfreithiol  
y Plant  
Children's  
Legal  
Centre**